

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 9 Ionawr, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Yr Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Yr Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, I.R. Buckley, C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R. Fisher, E.J. Goodjohn, J. Lynch-Wilson a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

658 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

659 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.M. Norman.

660 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2023 fel cofnod cywir.

661 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

662 DIWEDDARIAD AR FWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG (CGC) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro ("Cyfarwyddwr Allanol"), Cath Doman, yr adroddiad a roddodd friff i'r Aelodau ar waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a Bro Morgannwg yn unol â gofynion Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 sy'n nodi bod yn rhaid i

bob BPRh baratoi adroddiad blynyddol ar y graddau y mae wedi cyflawni ei amcanion.

Crynhodd yr adroddiad gynnydd y BPRh ers i'r adroddiad gael ei dderbyn ddiwethaf gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023, gan gydnabod yr heriau ariannol a chapasiti difrifol ar draws y bartneriaeth a'r effaith gysylltiedig ar gynnydd datblygiadau mwy strategol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Allanol wybod i'r Pwyllgor am fanylion gweithgareddau ac effaith y BPRh a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 y BPRh, yr oedd dolen ato ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Allanol fod y BPRh wedi profi cryn dipyn o her yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol, costau cynyddol, yn ogystal â chyfyngiadau capasiti, recriwtio a chadw. Roedd hyn yn annhebygol o ddod i ben yn y dyfodol agos ac, roedd sylw'r BPRh wedi troi fwyfwy at atgyfnerthu a chryfhau'r trefniadau presennol a oedd yn dangos effaith gadarnhaol a gwell canlyniadau i bobl. Roedd y BPRh yn ymwybodol o'r angen i barhau i ddiogelu a chynnal buddsoddiad mewn atal a chydweithio fel strategaeth hirdymor i leihau'r galw cyffredinol a'r risg ariannol gysylltiedig.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr Allanol, dechreuodd y Cynghorydd Cave drafodaeth ar yr eitem drwy ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei brofiadau personol o ofalu am berthynas agored i niwed â Dementia a'r diffyg cymorth a dderbyniwyd gartref gan y Gwasanaethau Cymdeithasol nes i'w berthynas gael ei dderbyn i'r ysbyty, ond yna dywedodd y byddai cymorth yn cael ei drosglwyddo i'r tîm rhyddhau o'r ysbyty. Mynegodd y Cynghorydd Cave ei siom bersonol yn sylwadau amhroffesiynol swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd a hefyd yn y ffaith nad oedd profiadau personol y Cynghorydd Cave yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd.

Yn ail, nododd y Cynghorydd Cave fod y cyllid yr oedd y Cyngor wedi bod yn ei roi mewn blynyddoedd blaenorol i sefydliadau gwirfoddol bellach wedi'i ddefnyddio i recriwtio dau Swyddog Deall Dementia Cymunedol Llawn Amser a oedd wedi bod yn gweithio i gefnogi busnesau a sefydliadau i ddod yn fwy ymwybodol o ddementia, gan gynnwys yn ardal y Bont-faen, fodd bynnag, nid oedd gan y swyddogion y cwrteisi i gysylltu â Grŵp Deall Dementia'r Bont-faen i roi gwybod i'r Grŵp fod y swyddogion wedi'u penodi ac y byddent yn cysylltu â busnesau yn y Bont-faen fel yr oedd Grŵp Deall Dementia'r Bont-faen wedi bod yn ei wneud ei hun ers blynyddoedd lawer.

Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y cyd-destun personol a godwyd gan y Cynghorydd Cave a bod y materion a godwyd gan y Cynghorydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn hytrach na'r BPRh yr oedd y Cyfarwyddwr Allanol yn bresennol i wneud sylwadau arno. Felly, ni theimlwyd ei bod yn briodol i'r Cyfarwyddwr Allanol ymateb yn uniongyrchol i sylwadau personol y Cynghorydd Cave, mewn arena Pwyllgor, heb ymchwiliad pellach. Fodd bynnag, mewn perthynas â sylwadau'r Cynghorydd Cave a godwyd o ran cyswllt â'r Sector Gwirfoddol, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn siomedig clywed, am y tro cyntaf, yr adborth a roddwyd ac y

byddai'n adrodd yn ôl i'w gydweithwyr perthnasol. Ym mhrofiad y Cyfarwyddwr, gweithiodd y Cyngor yn dda iawn gyda'r sector gwirfoddol ac roedd ganddo nifer o drefniadau ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau mor ddi-dor â phosibl.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Cave at y ffaith bod yr adroddiad gerbron y Pwyllgor mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ar gyfer y BPRh hyd at 2028 ac felly gofynnodd pa mor agos oedd y BPRh at gyflawni ei amcanion a osodwyd ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Allanol fod y BPRh wedi cyhoeddi ei ail Gynllun Ardal ar y Cyd ar gyfer 2023-28 yn 2023. Roedd hyn yn nodi ymrwymiadau'r BPRh ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac roedd y BPRh ar ddechrau cyflawni yn erbyn y pum mlynedd a oedd yn daith ddatblygu barhaus. Roedd yn bwysig tynnu sylw at y ffaith bod llawer o'r cynnydd a nodwyd yn y cynllun ardal ar y cyd yn dangos sut roedd y Bartneriaeth wedi adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd eisoes a nawr roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i edrych ar sut y gellid ymestyn ar gyflawniadau'r gorffennol ar lefel uwch ond, byddai mwy o fanylion yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau cyflawni blynyddol y byddai'r BPRh yn eu cyhoeddi dros yr ychydig fisoedd nesaf yn barod ar gyfer 2024-25.

Yna ychwanegodd y Cynghorydd Cave y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor ddeall yn well statws y cynnydd a oedd yn cael ei wneud ar ddechrau'r amserlen pum mlynedd, a dywedodd y Cyfarwyddwr Allanol fod y BPRh yn cynhyrchu dogfennau manwl iawn a oedd yn rhoi mesurau ynghylch yr effaith yr oedd y BPRh yn ei chael a faint y mae'r BPRh wedi'i gyflawni o ran nifer enfawr o brosiectau a darnau o waith ar ddechrau datblygu yn ogystal â'r rhai a oedd eisoes wedi'u datblygu'n dda. Pe bai prosiectau penodol yr hoffai'r Cynghorwyr gael dealltwriaeth fanylach ohonynt, byddai'r BPRh yn hapus i roi unrhyw wybodaeth angenrheidiol.

Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Cave, er mwyn mesur y gwaith o gyflawni amcanion erbyn 2028, y byddai'n dda i'r Pwyllgor gael rhywfaint o gofnod o gynnydd wedi'i nodi ar ffurf canran. Cytunodd y Cyfarwyddwr Allanol i hyn a diolchodd i'r Cynghorydd Cave am bwynt da, wedi'i wneud yn dda.

Yna nododd y Cynghorydd Cowpe bwysigrwydd sicrhau bod cynllunio effeithlon ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty a rhoi pecynnau gofal ar waith mor effeithlon â phosibl gan fod y rhain yn aml yn cymryd gormod o amser i'r unigolion dan sylw. Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Cowpe wedyn a oedd y Bartneriaeth yn gweithio gydag ysgolion cynradd ai peidio i nodi a chefnogi plant a oedd yn ymgymryd â rôl gofalwr gan fod plant ysgol gynradd yn rhoi gofal ac yn cael eu colli'n aml oherwydd nad oes neb yn gwybod eu bod yn rhoi gofal, yn enwedig os nad yw'r teulu wedi codi'r mater.

Mewn ymateb, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cyngor, yn y prif gydweithwyr addysg, yn cydweithio ag ysgolion i nodi gofalwyr ifanc a bod pobl ifanc a nodwyd yn cael cymaint o gymorth â phosibl. Nodwyd na fyddai plant ifanc o reidrwydd yn sylweddoli eu bod yn ymgymryd â rôl gofalwr, felly roedd nodi'r unigolion hynny'n her barhaus. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr hefyd fod swyddogion wedi cyflwyno adroddiad ar ofalwyr di-dâl i'r Pwyllgor yn y gorffennol, ac

y byddai'n hapus i gyflwyno'r adroddiad hwnnw i'r Pwyllgor eto yn y dyfodol pe bai angen ar yr Aelodau.

Mewn ymateb, ailadroddodd y Cynghorydd Cowpe ei ddymuniad i nodi'r ffaith nad oedd plant oedran ysgol gynradd o reidrwydd yn ymwybodol eu bod yn ymgymryd â rôl gofalwr a bod cyfrifoldebau gofalu yn aml yn cael eu cadw'n dawel o fewn yr uned deuluol.

Yna tynnodd y Cynghorydd Fisher sylw'r Aelodau at baragraff 2.13 yr adroddiad a oedd yn nodi sut yr oedd y BPRh wedi cefnogi'r Cyngor i fuddsoddi mewn gwasanaeth arloesol, gan gomisiynu Ambiwlans Sant Ioan i ymateb i bobl sydd wedi cwmpo a'u helpu i aros gartref fel rhan o'r Gwasanaeth Teleofal a gofynnodd i'r swyddogion a oedd gan Ambiwlans Sant Ioan ddigon o bersonél i ymgymryd â'r gwasanaeth. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair y Fro fod digon o bersonél ac roedd y gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n dda iawn.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Buckley at baragraff 2.26 yr adroddiad a oedd yn nodi bod Rhaglen Fraenaru'r Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn rhoi cymorth ychwanegol ar draws y rhanbarth yn ystod 2023 i uwchsgilio'r gweithlu, gan gynnwys ymarfer gwrthsefyll anhrefsgar a oedd wedi'i dreialu gyda 36 o ymarferwyr a gofynnodd am fwy o wybodaeth am yr hyn a oedd yn gysylltiedig â'r hyfforddiant a oedd yn cael ei roi. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Allanol fod Rhaglen Fraenaru'r Blynyddoedd Cynnar wedi derbyn cyllid i gysylltu â phartneriaid i roi hyfforddiant a oedd yn cynnwys swyddogion Bro Morgannwg ar sut i atal pobl ifanc mewn ffordd anhrefsgar ac roedd yr hyfforddiant wedi'i groesawu'n gadarnhaol iawn a gellid rhoi gwybodaeth ychwanegol pe bai angen. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cynghorydd Buckley nad oedd angen gwybodaeth ychwanegol a diolchodd i'r Cyfarwyddwr am ei ymateb.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Fisher at baragraff 2.29.1 yr adroddiad a gyfeiriodd at Wasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) Caerdydd a'r Fro yn dathlu pum mlynedd o gefnogi oedolion awtistig a'u gofalwyr yn rhanbarth y Bartneriaeth yn 2022 a gofynnodd iddi gael ei nodi ei fod yn falch iawn bod y gwasanaethau wedi'u croesawu'n fawr gan ddefnyddwyr a'u bod yn cael eu cydnabod yn dda a'u defnyddio.

Yna diolchodd yr Is-gadeirydd i'r swyddogion am adroddiad diddorol a nododd fod y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yn dangos meddwl cydgysylltiedig ac y dylid ei wthio ymlaen hyd yn oed ymhellach. Yna cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at adran 2.28 yr adroddiad a gofynnodd i fwy o wybodaeth o adran yr adroddiad gael ei hanfon at holl Aelodau Etholedig Cyngor Bro Morgannwg, a dywedodd y Cyfarwyddwr Allanol y byddai'n hapus i roi crynodeb i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i'w anfon ymlaen at yr holl Aelodau Etholedig yn dilyn y cyfarfod.

Yna cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at 2.9 yr adroddiad a gyfeiriodd at gyllid ar gyfer sicrhau bod capasiti cynllunio ychwanegol ar gael i Wasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg i ddatblygu cynlluniau cyfalaf i gefnogi'r gwaith o ddarparu a moderneiddio gwasanaethau a gofynnodd i'r swyddogion a oedd ganddynt fwy o fanylion ar yr adeg hon i'w rhannu. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Allanol

fod gan y BPRh nifer o ffrydiau cyllido cyfalaf ar gyfer adeiladau, ar gyfer seilwaith, a gafodd eu cyfeirio trwy'r BPRh, ac roedd yn cymryd llawer o gynllunio a meddwl i wneud yn siŵr bod y BPRh yn alinio'r brics a'r mortar â'i wasanaethau a sut roedd y BPRh am i'r gwasanaethau ddatblygu. Roedd y cynllunio manwl yn eistedd ochr yn ochr â'r blaenoriaethau cyflawni gweithredol ond yn aml nid oedd gan yr arweinwyr gweithredol y capasiti ar gyfer y meddwl tymor hwy a'r cynllunio manwl a oedd eu hangen felly roedd y BPRh wedi defnyddio peth o'i gyllid i sicrhau rhywfaint o gapasiti ychwanegol yn adran y gwasanaethau cymdeithasol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Allanol nad oedd recriwtio i'r swydd gysylltiedig wedi digwydd eto, ond bod y broses ar y gweill ar hyn o bryd.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Fisher at yr ymrwymadau allweddol ym mharagraff 2.18 yr adroddiad a gwnaeth gynnig ei gefnogaeth i'r naw amcan, fodd bynnag, gofynnodd pa mor realistig oedd yr amcanion i'w cyflawni. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Allanol fod y Bartneriaeth yn gobeithio y byddai'r holl amcanion yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, byddai hyn yn ymrwymiad hirdymor a byddai manylion gwirioneddol mewn perthynas â'r amcanion yn cael eu nodi yn y cynlluniau cyflawni blynyddol. Roedd cryn dipyn o waith i'w wneud fel Partneriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion ac roedd llawer o waith eisoes wedi digwydd er mwyn llunio'r amcanion a nodwyd.

Yn ogystal, nododd y Cadeirydd hefyd ei gefnogaeth i'r nodau a'r ymrwymadau ym mharagraff 2.18 yr adroddiad ond mynegodd rywfaint o bryder ynghylch a oedd digon o staff cymwys ar gael er mwyn cyflawni'r amcanion ai peidio. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod yn ddoeth i'r Cyngor anelu at gyflawni amcanion er mwyn cynnal cynnydd gan nad oedd cael dirywiad mewn cynnydd yn opsiwn.

Yn ogystal, nododd y Cynghorydd Cowpe nad oedd bob amser yn ymwneud â'r staff a oedd ar gael, ond hefyd am y gweithlu presennol yn gweithio'n wahanol i gyflawni amcanion.

Yna cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 2.19 yr adroddiad ac mewn perthynas â'r ymrwymiad y byddai gwell gwasanaethau i bobl ag anabledau dysgu fyw'n agosach at adref gyda'r cymorth cywir a gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a gofynnodd a fyddai bodloni'r amcan yn golygu y byddai pobl ifanc yn cael eu symud o'u lleoliad preswyl presennol.

Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn bosibl symud unigolion rhwng lleoliadau preswyl ond dim ond ar sail asesiad unigol y byddai hyn yn digwydd. Pe bai unigolyn yn dymuno aros lle yr oedd, y tu allan i Fro Morgannwg, byddai'r Cyngor yn cydweithio â'r Awdurdod Lleol perthnasol i gynnal sefydlogrwydd i'r unigolyn.

Yna cynigiodd y Cadeirydd sylwadau mewn perthynas â pharagraffau 2.28, 2.30, 2.31 a 2.32 fel a ganlyn:

- 2.28 – roedd yn dda gweld y Cynulliad Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol cyntaf yn cael ei gydnabod gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

- 2.30 – roedd y Tŷ Pontio Clyfar ym Mhenarth, ar gyfer oedolion ifanc ag anabledd dysgu a oedd yn trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg yn gyfleuster o'r radd flaenaf ac yn hanfodol ar gyfer rhoi annibyniaeth i unigolion ifanc.
- 2.31 – mewn perthynas â'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i gefnogi pobl â dementia, roedd hwn yn ddarn pwysig iawn o waith ac roedd yn bwysicach fyth bod y cymorth yn digwydd.
- 2.32 – roedd y rhaglen gartref, â'r nod o ddatblygu gwasanaethau gofal integredig yn y gymuned, yn canolbwyntio ar alluogi pobl i aros yn iach ac yn annibynnol gartref ac roedd yn gymeradwy cyn belled nad oedd yr unigolyn dan sylw mewn perygl.

I gloi, dymunodd y Cadeirydd bob lwc i'r Cyfarwyddwr Allanol wrth gyflawni'r amcanion fel y nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol a diolchodd i'r holl swyddogion am eu hamser.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg, a'r cynnydd a wnaed, yn enwedig y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer pobl leol.

(2) DERBYN diweddariadau blynyddol pellach ar waith y Bwrdd.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad diweddar i godi ymwybyddiaeth o waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yr oedd Cyngor Bro Morgannwg yn brif bartner iddo.

(2) Sicrhau bod yr Aelodau'n parhau'n hysbys ac yn ymgysylltu â gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

663 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2024-25 (CYF) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023 fel y nodwyd yn yr agenda.

Roedd yr adroddiad yn nodi sut y datblygwyd Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) drafft 2024-25 ("y Cynllun"), yr ymgynghoriad arfaethedig a'r amserlen ar gyfer y Cynllun yn ogystal â sut yr oedd y Cynllun yn cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cyngor. Nododd y Cynllun hefyd y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn 2024-25 i gyflawni'r amcanion hynny.

Dyweddod y Cyfarwyddwr fod y Cynllun hefyd yn manylu ar dair her hanfodol (a oedd yn gysylltiedig â'r pedwar amcan lles) a fyddai'n parhau'n ffocws allweddol i'r sefydliad yn 2024-25, gwydnwch sefydliadol, costau byw a'r argyfyngau hinsawdd a natur oedd y rhain a byddai'r ymrwymadau o fewn y CCB yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ynghyd â chyfres o fesurau perfformiad a fyddai'n manylu ar sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni pedwar amcan lles y Cyngor.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, gofynnodd y Cadeirydd faint o bobl a arolygwyd fel rhan o ymgynghoriad y Cynllun a beth ofynnwyd i'r unigolion. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd ganddo'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i law, fodd bynnag, byddai'n ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ac yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft, fel y'i hatodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad Cabinet y cyfeiriwyd ato.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad Cabinet atodedig, er mwyn sicrhau bod pob Pwyllgor Craffu yn cael y cyfle i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft a rhoi adborth fel rhan o'r rhaglen ymgynghori.

664 RHANBARTHOLI DATBLYGU CHWARAEON (CYF) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad y cyfeiriad a'r adroddiad atodol o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 fel y nodwyd yn yr agenda.

Dyweddod y cafodd yr adroddiad ei gyflwyno'n flaenorol i geisio cymeradwyaeth i Fro Morgannwg ddod yn rhan o fenter Datblygu Chwaraeon Canolbarth y De fel Partner Strategol. Roedd Partneriaethau Chwaraeon eisoes wedi'u sefydlu yng Ngorllewin a Gogledd Cymru a'r gobaiith oedd mai Rhanbarth Canolbarth y De fyddai nesaf. Wedi hynny roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor i sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau â gwybodaeth am y datblygiad ac i alluogi'r Cabinet i ystyried unrhyw sylwadau cyn ymuno â'r bartneriaeth.

Nododd adran 2 o adroddiad atodol y Cabinet y materion allweddol i'w hystyried mewn perthynas â'r bartneriaeth gan gynnwys yr amcan o sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De erbyn 1 Ebrill 2024.

Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol fod trafodaethau wedi bod yn parhau gyda Chwaraeon Cymru a'r 5 Awdurdod Lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg) i gael eu cynnwys mewn Rhanbarth Canolbarth y De. Roedd y trafodaethau wedi ystyried manteision rhanbartholi a'r modelau posibl y gellid eu mabwysiadu i sicrhau partneriaeth effeithiol ac effeithlon.

O ystyried yr amrywiad a oedd yn bodoli rhwng modelau cyflawni presennol ar gyfer Datblygu Chwaraeon, ardaloedd tir (ardaloedd trefol i ardaloedd mawr o gefn gwlad) ac amrywiadau sylweddol yn y boblogaeth, roedd wedi bod yn heriol dewis model lle roedd pawb yn teimlo'n bartner cyfartal.

Ychwanegodd y Swyddog mai'r model a gynigiwyd ar gyfer Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De ac a gefnogwyd mewn egwyddor gan holl gynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol ar fwrdd y prosiect, oedd sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant (gydag opsiwn i ystyried statws elusennol yn ddiweddarach) a fyddai'n dosbarthu arian. Roedd pob Awdurdod Lleol wrthi'n paratoi adroddiad tebyg i hyn i geisio cymeradwyaeth i ddod yn un o Bartneriaid Strategol Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am y cynnig a'r trafodaethau a gynhaliwyd hyd yma yn Atodiad A adroddiad y Cabinet.

I gloi, dywedodd y Swyddog fod pob Awdurdod Lleol yn ddealladwy yn awyddus i ddiogelu'r cyllid a dderbyniodd gan Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau lles pwysig yn ei gymunedau ac i atal yr angen i ddileu swyddi. Ar gyfer blwyddyn 1 y bartneriaeth, byddai'r holl gyllid yn cael ei ddosbarthu yn seiliedig ar y bras ddyraniad y cafodd cynghorau unigol mewn blynyddoedd blaenorol.

Ar ddiwedd cyflwyniad y Swyddog, ailadroddodd y Cadeirydd fod y penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r Bartneriaeth yn nwylo'r Cabinet ond gwahoddodd sylwadau'r Pwyllgor y gellid eu bwydo'n ôl yn ôl yr angen.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, siaradodd y Cynghorydd Franks gerbron y Pwyllgor a nododd ei amheuaeth o ran rhaglenni Partneriaeth gan fod Cyngor y Fro ar ei golled yn aml ac nad yw'n cael ei gyfran deg ar ôl i bartneriaeth gael ei sefydlu. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Franks pa sicrwydd y gallai'r Pwyllgor ei dderbyn mewn perthynas â Phartneriaeth y dyfodol a gofynnodd a fyddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau cynnydd yn y dyfodol ar y mater.

Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad nad oedd yn bosibl rhoi cyngor ar hyn o bryd am ganlyniadau'r bartneriaeth arfaethedig ond, fel y crybwyllwyd eisoes, roedd y swyddogion yn ymwybodol y byddai'r flwyddyn gyntaf o gyllid partneriaeth yn cael ei glustnodi. Ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn cynllunio yn erbyn effeithiau'r bartneriaeth ac yn disgwyl gostyngiad mewn cymorth ariannol, ond byddai hyn hefyd yn wir am bob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Roedd y swyddogion yn gobeithio y gallai pob Aelod Etholedig fod yn rhan o gefnogi'r bartneriaeth a bod y swyddogion yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Franks.

Fodd bynnag, roedd y Rheolwr Gweithredol yn cymryd sicrwydd cadarnhaol o'r un trefniadau partneriaeth a oedd eisoes ar y gweill yn ardal Gogledd Cymru a'r ffaith bod yr Awdurdodau Lleol a oedd yn rhan o Bartneriaeth Gogledd Cymru wedi llwyddo i sicrhau bod nifer o gynlluniau cyllido ar gael oherwydd maint cyfunol y cydweithrediad. Ar gyfer Partneriaeth Canolbarth y De, dim ond amser a ddengys, a gobaith y swyddogion oedd cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn yr adroddiad Chwaraeon a Chwarae Blynyddol nesaf sydd eisoes wedi'i drefnu i'r Pwyllgor ei ystyried.

Yna diolchodd y Cynghorydd Goodjohn i'r swyddogion am adroddiad cynhwysol iawn a hefyd adleisiodd bryder y Cynghorydd Franks o ran Cyngor Bro Morgannwg yn colli cyllid o ganlyniad i ymuno â'r Bartneriaeth. Roedd y Cynghorydd Goodjohn hefyd yn hapus i weld bod gwaith ymgysylltu yn mynd rhagddo gydag ysgolion fel y nodwyd yn yr adroddiad ac felly yn gobeithio na fyddai'r unigolion a gyrhaeddwyd drwy ysgolion, unigolion nad oeddent yn derbyn addysg yn yr ysgol yn ogystal ag ymgysylltu cymunedol mawr eu hangen yn cael eu heffeithio'n negyddol trwy sefydlu'r bartneriaeth.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gwaith a wnaed gydag ysgolion wedi bod yn ffocws i Dîm Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor ac y byddai'n parhau felly fel cynulleidfa darged sydd ar gael yn rhwydd. Nid oedd disgwyl i'r Bartneriaeth effeithio ar waith cymunedol a nododd y swyddog nad oedd gan Chwaraeon Cymru gyfrifoldeb am weithgareddau chwarae ac felly roedd cyllid chwaraeon ar wahân i gyllid Chwaraeon Cymru, fodd bynnag, cydnabuwyd bod chwarae i bobl ifanc yn aml yn gyflwyniad i bobl ifanc ymgymryd â gweithgareddau chwaraeon wrth iddynt dyfu ac felly, roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau cysylltiad rhwng y ddau.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Fisher mewn perthynas â pha mor aml y byddai adrodd ar y bartneriaeth, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod swyddogion eisoes yn rhoi adroddiad chwaraeon a chwarae i'r Pwyllgor yn flynyddol ac felly cynigiwyd parhau gydag adroddiadau blynyddol oni bai bod angen adroddiad yn gynt yn frys o ran materion rhanbartholi a oedd wedi digwydd. Ar gyfer cyflawnrwydd, eglurodd y Cadeirydd gyda'r Rheolwr Gweithredol fod disgwyl diweddariadau ar y Bartneriaeth fel rhan o'r Adroddiad Chwaraeon a Chwarae sydd eisoes wedi'i gynnwys yn Mlaenraglen Waith y Pwyllgor, fodd bynnag, gellid cyflwyno adroddiadau cyfeiriedig ar wahân i'r Pwyllgor pe bai angen.

Yna gofynnodd yr Is-gadeirydd i'r swyddog sut yr effeithiodd y Bartneriaeth ar berthynas y Cyngor â Legacy Leisure. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog fod gan y Cyngor contract ar waith gyda Legacy Leisure tan 2030 ac felly byddai Legacy Leisure yn cael cyfle i gynnwys eu hunain yn y bartneriaeth ranbarthol a dywedodd eu bod eisoes wedi nodi eu bod yn dymuno gwneud hynny. Yn ogystal, rhan o'r rhesymeg dros symud i'r model partneriaeth oedd cynnwys asiantaethau eraill ac yn sicr gydweithwyr o fewn y sector iechyd.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cyfeirnod a'r adroddiad Cabinet atodol.
- (2) CYTUNO ar yr argymhelliad bod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De, fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol Chwaraeon a Chwarae sydd eisoes wedi'i sefydlu ar Raglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Fro Morgannwg ddod yn rhan o fenter Datblygu Chwaraeon Canolbarth y De fel Partner Strategol a hysbysu'r Pwyllgor am y datblygiad yn ogystal â chaniatáu ar gyfer unrhyw sylwadau. i'w hystyried cyn ymuno â'r bartneriaeth.

(2) Monitro perfformiad Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth y De o safbwynt Cyngor Bro Morgannwg a bod â'r gallu i rannu unrhyw wybodaeth briodol gyda'r Cabinet.

665 OLRHAIN ARGYMHELLION SGRIWTINI O'R 3YDD CHWARTER A'R RHESTR RHAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU (CAC) –

Diben yr adroddiad oedd adrodd ar y cynnydd yn sgil yr argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau ar gyfer 2023/24:

- Orlhain Argymhellion Chwarter 3, mis Hydref i fis Rhagfyr 2023 (Atodiad A yr adroddiad); ac
- Amserlen y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/34 wedi'i diweddarau (Atodiad B yr adroddiad).

Dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu mai dim ond dwy eitem olrhain argymhellion a gafodd eu labelu fel rhai 'parhaus' oherwydd y materion yn ymwneud â chyfeiriadau neu gytundebau a wnaed gan y Pwyllgor, fodd bynnag, nid oedd y cyfarfod derbyn / dilynol wedi digwydd eto. Felly, roedd disgwyl i'r ddwy eitem gael eu marcio fel rhai wedi'u cwblhau, yn unol â'r holl eitemau eraill a restrwyd, maes o law.

Roedd hefyd ychydig iawn o lithriad adrodd ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor o Chwarter 2 i Chwarter 3 a gafodd ei fonitro'n barhaus gan Gadeirydd y Pwyllgor. Fodd bynnag, byddai penderfyniad y Pwyllgor yn gynharach ar yr un agenda i gynnwys diweddariadau yn y dyfodol ar gynnydd Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De fel rhan o'r Adroddiad Chwaraeon a Chwarae Blynyddol sydd eisoes wedi'i sefydlu, yn cael ei adlewyrchu ar y Flaenraglen Waith cyn ei chyhoeddi.

Felly, gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno ar gamau gweithredu'r argymhellion a restrwyd yn Atodiad A yr adroddiad yn ogystal â chymeradwyo Blaenraglen Waith wedi'i diweddarau'r Pwyllgor i'w lanlwytho i'r wefan gyhoeddus fel y'i cynhwyswyd yn Atodiad B yr adroddiad.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) CYMERADWYO'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.